

ofgem

Gwneud gwahaniaeth gwirioneddol
i ddefnyddwyr ynni

Sut i gael cysylltiad trydan


Os rydych yn adeiladu eiddo newydd, safle busnes neu'n datblygu safle cynhyrchu, efallai y bydd angen cyflenwad trydan newydd arnoch.

Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i gysylltu.

Y rhwydwaith dosbarthu trydan

Yr enw ar y cwmnïau sy'n berchen ar y seilwaith sy'n cyflenwi trydan i'ch safle ac yn ei weithredu yw gweithredwyr rhwydwaith dosbarthu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fonopolïau rhanbarthol felly fyddwch chi ddim yn dewis eich gweithredwr; mae'n seiliedig ar eich lleoliad. (gweler y map isod)

Mae gweithredwyr rhwydwaith dosbarthu annibynnol hefyd yn berchen ar rannau o'r rhwydwaith.



Sut y gallaf gael cysylltiad?

Y cam cyntaf yw cysylltu â'ch gweithredwyr rhwydwaith dosbarthu. Bydd eu manylion cyswllt ar eu gwefannau.

Bydd angen i chi roi manylion am eich gofynion. Bydd y gweithredwyr rhwydwaith dosbarthu yn rhoi dyfynbris i chi am y gwaith.

Nid oes rhaid i chi ddefnyddio gweithredwyr rhwydwaith dosbarthu ar gyfer pob gwasanaeth cysylltu. Gallwch fynd at ddarparwr cysylltiadau annibynnol neu weithredwr rhwydwaith dosbarthu annibynnol.


Beth fydd yn rhaid i mi dalu amdano?

Bydd angen i chi dalu am gost y gwaith ymlaen llaw. Bydd y gost yn dibynnu ar ffactorau gan gynnwys eich lleoliad a swm y trydan y bydd ei angen arnoch.

Bydd y pris yn cwmpasu:

- cost yr asedau at eich defnydd chi yn unig
- cyfran o'r gost o atgyfnerthu'r rhwydwaith, os oes angen.

Mae'n rhaid i'r gweithredwr rhwydwaith dosbarthu gyfrifo cost y gwaith gan ddefnyddio Methodoleg Tâl am Gysylltu. Mae pob gweithredwr rhwydwaith dosbarthu yn cyhoeddi hyn ar eu gwefan. Rydym yn cymeradwyo'r fethodoleg hon ond nid ydym yn cymeradwyo'r costau unigol a gyfrifir.



Sut gallaf sicrhau bargaen deg?

Fel y rheoleiddiwr, rydym yn gwneud yn siŵr eich bod yn cael gwasanaeth o safon uchel am bris teg drwy bennu'r fframwaith y mae pob gweithredwr rhwydwaith dosbarthu yn gweithredu oddi tano.


Mae gan bob gweithredwr rhwydwaith dosbarthu drwydded ac rydym yn monitro eu perfformiad yn ei erbyn. Mae hyn yn cynnwys y gofynion i weithredwyr rhwydwaith dosbarthu ddarparu cysylltiadau. Mae hefyd yn eu hannog i wella eu perfformiad yn y maes hwn.

- Unwaith y bydd y gweithredwr rhwydwaith dosbarthu wedi cael yr holl wybodaeth angenrheidiol gennych, mae'n rhaid iddo gynnig termau ar gyfer cysylltu i chi o fewn tri mis, gan gynnwys sut y cyfrifwyd y gost hon.
- Mae'r safonau perfformiad gwarantedig yn mesur p'un a yw'r gweithredwyr rhwydwaith dosbarthu yn bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer gwasanaethau cysylltu penodol. Mae'n rhaid i weithredwr rhwydwaith dosbarthu dalu iawndal i chi os yw'n methu â diwallu'r safonau hyn.
- Dylai gweithredwr rhwydwaith dosbarthu ddarparu gwybodaeth dryloyw i'w gwneud yn haws i chi gysylltu, megis canllawiau ar y broses.
- Mae gweithredwyr rhwydwaith dosbarthu yn cyhoeddi eu prosesau gwneud cwyn ac maent yn cael eu cymell i ddelio â chwynion yn gyflym.

Gwasanaethau Gwell gan Weithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu

Mae'r gwasanaeth a ddarperir i gwsmeriaid cysylltu yn gwella. Ond mae lle i wella ymhellach. O Ebrill 2015, byddwn yn atgyfnerthu mesurau sy'n bodoli eisoes ac yn cyflwyno rhai newydd.

- Rydym yn cyflwyno cymhelliant er mwyn lleihau amser rhoi dyfynbris a chysylltu ar gyfer cysylltiadau bach.
- Bydd yr arolwg boddhad cwsmeriaid sy'n bodoli eisoes yn canolbwyntio ar farn cwsmeriaid sydd â chysylltiadau bach.
- Rydym yn cyflwyno cymhelliant i wella ymgysylltiadau â chwsmeriaid sydd â chyswllt mwy a mwy cymhleth (megis datblygiadau tai neu gynhyrchu gwasgaredig). Bydd yn rhaid i weithredwyr rhwydwaith dosbarthu roi strategaeth ar waith sy'n diwallu anghenion y cwsmeriaid hyn neu gallant wynebu cosb ariannol.





Rhagor o wybodaeth

I ganfod pwy yw eich gweithredwr rhwydwaith dosbarthu a sut i gysylltu â hwy, ffoniwch y Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni ar 020 7706 5100 neu ewch i:
www.energynetworks.org/info/faqs/electricity-distribution-map.html

I gael rhestr o weithredwyr rhwydwaith dosbarthu annibynnol, ewch i: **www.ofgem.gov.uk/electricity/distribution-networks/connections-and-competition/independent-distribution-network-operators**

I gael rhestr o ddarparwyr cyswllt annibynnol, ewch i: **www.lloydsregister.co.uk/schemes/NERS/providers-list.aspx**

Os nad ydych yn hapus â'r gwasanaeth rydych yn ei gael ac nad oes modd ei ddatrys gyda'ch gweithredwr rhwydwaith dosbarthu, gallwch gysylltu â'r Gwasanaethau Ombwdsmon: Ynni ar 0330 440 1624, neu o'u gwefan: **www.ombudsman-services.org/energy.html**

Gallwch hefyd atgyfeirio anghydfod a gewch gyda'ch gweithredwr rhwydwaith dosbarthu atom ni i'w ddatrys. Gweler ein gwefan am ragor o wybodaeth: **www.ofgem.gov.uk/ofgem-publications/38164/determinationsguidanceaug2012.pdf**

Rydym wedi cyhoeddi nodyn mwy manwl ar gysylltiadau Trydan y gellir ei weld ar wefan Ofgem - **www.ofgem.gov.uk/publications-and-updates/guide-electricity-distribution-connections-policy**